

**Rhentu  
Doeth  
Cymru**  
**Rent  
Smart  
Wales**



# Polisi Ffioedd

# Rhentu Doeth Cymru

O'r 19<sup>eg</sup> o Ebrill 2018



## **RHAN 1 DEDDF TAI (CYMRU) 2014: POLISI FFIOEDD**

**Wedi'i ddiwygio ac mewn grym o 04/01/2018 neu'r dyddiad y caiff porthol TG RhDC ei ddiweddarau, pa bynnag un sy'n hwyrach.**

**Ceir isod y Polisi Ffioedd ar gyfer Rhentu Doeth Cymru (RhDC). Defnyddir y ffioedd a gesglir i ddarparu'r gwasanaeth sy'n cynnwys cofrestru landlordiaid, trwyddedu landlordiaid ac asiantau a chynnal hyfforddiant cysylltiedig. Nid yw RhDC yn sefydliad sy'n ennill elw.**

Mae Rheoliad 9 (1) Rheoliadau Tai Rhent Preifat (Gwybodaeth, Cyfnodau a Ffioedd ar gyfer Cofrestru a Thrwyddedu) (Cymru) yn nodi os yw awdurdod trwyddedu yn codi ffi am gofrestru neu drwyddedu, y dylai baratoi a chyhoeddi polisi ffioedd.

Mae Rheoliad 9 Rheoliadau Tai Rhent Preifat (Gofynion Hyfforddi) (Cymru) 2015 yn nodi os yw awdurdod trwyddedu'n cofi ffi am awdurdodi darparwr hyfforddiant neu gymeradwyo cwrs, mae'n rhaid iddo baratoi a chyhoeddi polisi ffioedd.

Wrth osod y ffioedd ar gyfer cofrestru, trwyddedu a hyfforddi:

- Rhaid i'r awdurdod trwyddedu weithredu'n unol â'i bolisi;
- Gall yr awdurdod trwyddedu osod ffioedd gwahanol ar gyfer achosion neu ddisgrifiadau achosion gwahanol; a
- Gall yr awdurdod trwyddedu benderfynu nad oes angen talu ffi mewn rhai achosion neu ddisgrifiadau o achosion.

Gall yr Awdurdod Trwyddedu adolygu ei bolisi ffioedd, ac oes yw'n gwneud hynny, rhaid iddo gyhoeddi'r polisi fel y'i diwygiwyd. Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cadw'r hawl i addasu ffioedd yn ôl ei ddisgresiwn.

Ceir isod y ffioedd a fydd yn berthnasol i'r ceisiadau a brosesir dan ddarpariaethau Rhan 1 Deddf Tai (Cymru) 2014 o 1 Ebrill 2018 neu'r dyddiad y caiff porthol TG RhDC ei ddiweddarau, pa bynnag un sy'n hwyrach.

Nodwch o ddyddiad gweithredu'r polisi hwn, mae dewis gan Landlordiaid ac Asiantau i dalu'r ffi Trwydded ostyngedig ymlaen llaw neu'i thalu mewn dwy ran, y cyntaf wrth gyflwyno'r cais am drwydded a'r ail cyn i'r drwydded gael ei chyhoeddi.

**Ffioedd ar gyfer Cofrestru, Trwyddedu Landlordiaid a Chymeradwyo ac Awdurdodi Hyfforddiant**

Math y Cais	Cais newydd	Cyfnod Adnewyddu	Ffi Adnewyddu	Gwybodaeth Ychwanegol
Cofrestru Landlordiaid – Ar-lein	£33.50	5 mlynedd	l'w osod yn unol â phrofiad gweithredol cyn i gofrestriadau, trwyddedau, cymeradwyaeth ac awdurdodiadau ddog i ben.	<p><b>Mae ffioedd trwydded landlord yn berthnasol i asiantau yn lle ffioedd asiant yn yr amgylchiadau canlynol yn unig:</b></p> <p>a) Asiantau sy'n rheoli a/neu osod 20 eiddo neu lai neu</p> <p>b) Asiantau sy'n rheoli eu heiddo eu hunain a/neu eiddo y mae perthynas* iddynt yn berchen arno ac nad ydynt yn cyflogi staff er dibenion gosod a rheoli. Ceir diffiniad o berthynas yn Adran 258 Deddf Tai 2004 oni cheir diffiniad arall</p> <p>*Gostyngedig – taliad ymlaen llaw o ffi gyfan y drwydded.</p> <p>Ni chodir ffioedd am ddiweddarau gwybodaeth.</p> <p>Ni chodir tâl ar ymgeiswyr i wneud diwygiadau yn eu cyfrifon.</p> <p>Mae opsiynau talu ar gael dan amgylchiadau eithriadol yn unig.</p>
Cofrestru Landlordiaid – Ar Bapur	£80.50	5 mlynedd		
Trwydded Landlordiaid Ar-lein – Ffi Rhan 1	£99	5 mlynedd		
Trwydded Landlordiaid Ar-lein – Ffi Rhan 2	£84	5 mlynedd		
*Trwyddedu Landlordiaid Ar-lein - Gostyngedig	£144.00	5 mlynedd		
Trwydded Landlordiaid – ar bapur – Ffi Rhan 1	£148	5 mlynedd		
Trwydded Landlordiaid – ar bapur – Ffi Rhan 2	£77	5 mlynedd		
*Trwyddedu Landlordiaid – Ar bapur - Gostyngedig	£186.00	5 mlynedd		
Cymeradwyo Cwrs	£440.00	2 mlynedd		
Awdurdodi Darparwr Hyfforddiant	£685.00	2 mlynedd		

**Ffioedd Trwyddedu Asiantau Gosod a Rheoli Eiddo.**

Sicrhewch eich bod yn darllen yr HOLL wybodaeth gan gynnwys y wybodaeth ychwanegol.

Math y Cais	Nifer yr Eiddo Rhent Preifat a Reolir yng Nghymru	Ffi Cais	Talu drwy Randaliadau Blynyddol
Trwyddedu Asiantau – ar-lein (dim aelodaeth o gorff proffesiynol) Ffi Rhan 1	Hyd at 100	£2100.00	Oes
	101 i 500	£1084	Nac oes
	501 i 1000	£1453	Nac oes
	1001 i 1999	£1821	Nac oes
	2000+	£2022	Nac oes
Trwyddedu Asiantau – ar-lein (dim aelodaeth o gorff proffesiynol) Ffi Rhan 2	Hyd at 100	Dd/b	Dd/b
	101 i 500	£2155	Nac oes
	501 i 1000	£2886	Nac oes
	1001 i 1999	£3618	Nac oes
	2000+	£4017	Nac oes
*Trwyddedu Asiantau - Ar-lein ( <b>Dim</b> aelodaeth o gorff proffesiynol) - Gostyngedig	Hyd at 100	£2100.00	Oes
	101 i 500	£3200.00	Nac oes
	501 i 1000	£4300.00	Nac oes
	1001 i 1999	£5400.00	Nac oes
	2000+	£6000.00	Nac oes
Trwyddedu Asiantau – ar-lein (gydag aelodaeth o gorff proffesiynol) Ffi Rhan 1	Hyd at 100	£1890	Oes
	101 i 500	£977	Nac oes
	501 i 1000	£1309	Nac oes
	1001 i 1999	£1640	Nac oes
	2000+	£1821	Nac oes
Trwyddedu Asiantau – ar-lein (gydag aelodaeth o gorff proffesiynol) Ffi Rhan 2	Hyd at 100	Dd/b	Dd/b
	101 i 500	£1942	Nac oes
	501 i 1000	£2600	Nac oes
	1001 i 1999	£3259	Nac oes
	2000+	£3618	Nac oes
*Trwyddedu Asiantau - Ar-lein ( <b>Gydag</b> aelodaeth o gorff proffesiynol) - Gostyngedig	Hyd at 100	£1890.00	Oes
	101 i 500	£2880.00	Nac oes
	501 i 1000	£3870.00	Nac oes
	1001 i 1999	£4860.00	Nac oes
	2000+	£5400.00	Nac oes
Trwyddedu Asiantau – ar bapur (dim corff proffesiynol) Ffi Rhan 1	Hyd at 100	£2700	Oes
	101 i 500	£1600	Nac oes
	501 i 1000	£2059	Nac oes
	1001 i 1999	£2517	Nac oes
	2000+	£2767	Nac oes

Trwyddedu Asiantau – ar bapur (dim corff proffesiynol) Ffi Rhan 2	Hyd at 100	Dd/b £2239	Dd/b Nac oes
	101 i 500	£2880	Nac oes
	501 i 1000	£3522	Nac oes
	1001 i 1999	£3872	Nac oes
*Trwyddedu Asiantau – Ar bapur ( <b>Dim</b> aelodaeth o gorff proffesiynol) - Gostyngedig	2000+	£3872	Nac oes
	Hyd at 100	£2700.00	Oes
	101 i 500	£3800.00	Nac oes
	501 i 1000	£4900.00	Nac oes
	1001 i 1999	£6000.00	Nac oes
Trwyddedu Asiantau – ar bapur (gydag aelodaeth o gorff proffesiynol) Ffi Rhan 1	2000+	£6600.00	Nac oes
	Hyd at 100	£2490	Oes
	101 i 500	£1467	Nac oes
	501 i 1000	£1879	Nac oes
	1001 i 1999	£2292	Nac oes
Trwyddedu Asiantau – ar bapur (gydag aelodaeth o gorff proffesiynol) Ffi Rhan 2	2000+	£2517	Nac oes
	Hyd at 100	Dd/b £2052	Dd/b Nac oes
	101 i 500	£2630	Nac oes
	501 i 1000	£3207	Nac oes
*Trwyddedu Asiantau – Ar bapur ( <b>Gydag</b> aelodaeth o gorff proffesiynol) - Gostyngedig	1001 i 1999	£3522	Nac oes
	2000+	£3522	Nac oes
	Hyd at 100	£2490.00	Oes
	101 i 500	£3480.00	Nac oes
	501 i 1000	£4470.00	Nac oes
Trwyddedu Asiantau – ar bapur (gydag aelodaeth o gorff proffesiynol) Ffi Rhan 1	1001 i 1999	£5460.00	Nac oes
	2000+	£6000.00	Nac oes
	2000+	£6000.00	Nac oes

**Cyfnod Adnewyddu: 5 mlynedd**

## Gwybodaeth Ychwanegol: Ffioedd Asiantau Gosod a Rheoli Eiddo

### 1. Taliad trwy randaliadau :

Mae'r opsiwn i dalu trwy randaliadau ond ar gael i asiantau sy'n rheoli hyd at 100 o eiddo oni bai bod amgylchiadau eithriadol yn berthnasol a bydd yn amodol ar gymeradwyaeth y Rheolwr Gweithredol.

**Ffioedd i'w talu am gais ar-lein:** y rhandaliad cyntaf (ar sail costau gweinyddu) yw £633 (gydag aelodaeth broffesiynol) a £703 (heb aelodaeth broffesiynol) a chaiff y gweddill ei rannu dros bedwar taliad blynyddol ar gyfer ceisiadau asiantau **ar-lein**.

**Ffioedd i'w talu ar gyfer cais ar bapur:** Y rhandaliad cyntaf (ar sail costau gweinyddu) yw £1038 (gydag aelodaeth broffesiynol) a £1125 (heb aelodaeth broffesiynol) a chaiff y gweddill ei rannu dros bedwar taliad blynyddol ar gyfer ceisiadau asiantau **ar bapur**.

Ceir talu trwy randaliadau ond os:

- Yw debyd uniongyrchol yn cael ei sefydlu ar y cam gwneud cais.
- Yw ymrwymiad wedi'i gael o'r dechrau i dalu'r swm llawn
- Nad oes hanes gwael o ran talu neu hanes o ganslo cynlluniau talu blaenorol.

Pan gaiff trefniadau rhandaliadau eu canslo / pan na chânt eu talu caiff y drwydded ei diddymu a bydd angen i'r ymgeisydd gyflwyno cais newydd am drwydded yn ôl yr angen. Codir ffi cais newydd am hyn, beth bynnag sy'n briodol, ar adeg gwneud y cais.

### 2. Mae aelodaeth cyrff proffesiynol yn cynnwys:

- Cymdeithas Asiantaethau Gosod Preswyl (ARLA)
- Cymdeithas Genedlaethol Asiantau Tai (NAEA)
- Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS)
- Cynllun Gosod Cymeradwy Cenedlaethol (NALS)
- Cymdeithas Asiantaethau Gosod Tai y DU (UKALA)
- Arall fel y penderfynir gan yr Awdurdod Trwyddedu

Mae asiant gosod tai cymdeithasol y mae ei holl weithgareddau gosod a rheoli yn ymwneud â darparu ar y cyd â phartneriaeth gosod cymdeithasol awdurdod lleol yn gymwys ar gyfer y gostyngiad aelodaeth broffesiynol.

### 3. Asiantaethau Gosod yn Unig:

Mae asiantaethau gosod yn unig yn rhan o'r categori "hyd at 100" (ac eithrio a ydynt yn gosod 20 eiddo neu lai, gweler uchod).

### Ffioedd Hyfforddiant Rhentu Doeth Cymru:

Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cynnig ei hyfforddiant ei hun er mwyn ateb gofynion y ddeddfwriaeth. Mae'r cyrsiau ar gael yn uniongyrchol gan Rentu Doeth Cymru ac mae'r ffioedd cysylltiedig wedi eu nodi isod:

Teitl y Cwrs	Dull Darparu	Cyfnod Addysgu	Ffi sy'n daladwy
Cwrs i Landlordiaid Mewn Ystafell Ddosbarth	Ystafell ddosbarth	6.5 awr	£100.00
Cwrs i Asiantau Mewn Ystafell Ddosbarth	Ystafell ddosbarth	7.5 awr	£140.00
Cwrs Ar-lein i Landlordiaid gan RDdC	Ar-lein	Tua 5 awr	£30.00
Cwrs Ar-lein i Asiantau gan RDdC	Ar-lein	Tua 7.5 awr	£50.00
Cwrs Ategol i Asiantau gan RDdC	Ar-lein	Tua 2.5 awr	£20.00
Cwrs Gloywi Landlordiaid Rhentu Doeth Cymru	Ar-lein	1 awr	Dim cost
<b>Cyrsiau DPP</b>			
Cwrs DPP mewn ystafell ddosbarth	Ystafell ddosbarth	Oriau amrywiol	Hyd at £100 yn dibynnu ar fath y cwrs a darparwr y cwrs
Cwrs DPP ar-lein	Ar-lein	Oriau amrywiol	Hyd at £30 yn dibynnu ar fath y cwrs

Cynigir dewisiadau eraill i ymgeiswyr na allant gwblhau'r cwrs ar-lein neu mewn ystafell ddosbarth lle bo'n bosibl, fel y cydnabyddir gan yr Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Bydd ffioedd yn adlewyrchu cost darparu'r cwrs ac yn amodol ar gymeradwyaeth gan y Rheolwr Gweithredol.

## Gwybodaeth ychwanegol i egluro'r polisi:

- Ni chodir tâl am ddiweddarü gwybodaeth, oni bai y nodir fel arall yn y polisi
- Os yw asiant hefyd yn landlord, caiff unrhyw eiddo landlord a reolir ganddo fel asiant (pan fo'r landlord o'r un endid cyfreithiol â'r asiant) eu diystyru at ddibenion cyfrif yr eiddo a reolir gan yr asiant.
- Os yw landlord/asiant yn gwneud cais am fwy o gardiau trwydded codir ffi weinyddu o £7 y cerdyn.
- Codir tâl weinyddu o £12 am ailgyhoeddi cardiau trwydded, a rhoi copiâu o'r ddogfennaeth gofrestru a thrwyddedu wedi'i hargraffu.
- Os bydd landlord yn newid perchenogaeth ei eiddo o un endid i endid arall e.e. person unigol i gorff corfforaethol bydd angen cais cofrestru / trwydded newydd fydd â ffi newydd i'w thalu.
- Ar ôl i'r cais gael ei gymeradwyo, ni ellir newid math y cais. Rhaid cyflwyno cais newydd am drwydded a thalu ffi newydd.
- Os nad oes angen trwydded ar drwyddedai mwyach, caiff ei diddymu ond ni ad-delir y ffi i'r ymgeisydd. Pan fo'r ffi'n cael ei thalu trwy randaliadau, mae'r swm dyledus dal yn ddyledus.
- Ni ad-delir ffi trwydded pan fo landlord yn atal bod yn landlord ymhen cyfnod 5 mlynedd y drwydded.
- Os gwrthodir cais am drwydded landlord neu asiant, bydd y ffi sy'n ddyledus yn cyfateb i ffi Rhan 1 yn unig. Os yw swm mwy wedi'i dalu'n wirfoddol ar y cam gwneud cais, ad-delir y gwahaniaeth gan RDdC.
- Os diddymir cais am drwydded landlord neu asiant, ni ad-delir unrhyw ran o'r ffi.
- Os yw landlord/asiant wedi gwneud cais am drwydded ar-lein ac am dderbyn gohebiaeth trwy'r post, yna mae angen i'r landlord dalu'r ffi am y cais ar bapur. Bydd angen i'r ymgeisydd dalu'r gwahaniaeth, a ddefnyddir ar gyfer gweinyddu argraffu a phostio gohebiaeth.

## Dyddiad y bydd y polisi ar waith:

19<sup>eg</sup> Ebrill 2018

